# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Mawrth 2021

Amser: 09.00 - 12.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11123

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Mark Isherwood AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Mark Reckless AS |
| Tystion: | Simon Hart MP, Swyddfa Cymru<br>Geth Williams, Swyddfa Cymru<br>Debra Carter, Llywodraeth Cymru<br>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Marcella Maxwell, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cymerodd yr aelodau canlynol o’r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ran yn eitemau 5 a 7, yn unol â Rheol Sefydlog 17.49:

- David Rees AS
- Huw Irranca-Davies AS
- Nick Ramsay AS
- David Rowlands AS

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch Cynnig Cyllideb Atodol diwygiedig – 2 Mawrth 2021**

**2.2 PTN 2 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch cyllid a ddyrannwyd i gefnogi busnes yn ystod y pandemig – 2 Mawrth 2021**

**2.3 PTN 3 – Llythyr gan Bwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys: Cyllideb Llywodraeth yr Alban 2021-22 – 4 Mawrth 2021**

**2.4 PTN 4 – Llythyr ar y cyd gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, a'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch porthladdoedd rhydd yng Nghymru – 4 Chwefror 2021**

**2.5 PTN 5 - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 - Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid - 5 Mawrth 2021**

## 3 Gwaith Gwaddol y Pwyllgor Cyllid: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ar waith gwaddol y Pwyllgor Cyllid gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys; Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid; Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Strategol Llywodraeth Leol; a Marcella Maxwell, Dirprwy Gyfarwyddwr Caffael Masnachol a Strategaeth Grŵp.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i ddarparu:

- Rhagor o wybodaeth trwy'r Gweinidog Addysg ynghylch dyraniad cyllid ar gyfer ymchwil mewn Sefydliadau Addysg Uwch.

## 4 Offerynnau Statudol ym maes treth: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ar yr offeryn statudol ym maes treth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys; Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid; Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Strategol Llywodraeth Leol; a Marcella Maxwell, Dirprwy Gyfarwyddwr Caffael Masnachol a Strategaeth Grŵp.

4.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a'i swyddogion am y ffordd adeiladol y maent wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor dros gyfnod y Bumed Senedd.

## 5 Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Sesiwn dystiolaeth

5.1 Croesawu'r Aelodau o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a wahoddwyd i'r cyfarfod ar gyfer yr eitem gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

5.2 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru; a Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfansoddiad a Pholisi, Swyddfa Cymru.

5.3 Cytunodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i wneud yr hyn a ganlyn:

- Darparu rhagor o wybodaeth am statws Gwynedd fel ardal categori 3 mewn perthynas â'r Gronfa Codi'r Gwastad.
- Siarad â Thrysorlys Ei Mawrhydi ynghylch rheolaeth Trysorlys Ei Mawrhydi o ran faint o arian y gall Llywodraeth Cymru ei drosglwyddo o'r 'grant bloc' i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- Archwilio honiadau Llywodraeth Cymru nad yw'r mecanwaith ar gyfer datganoli cymhwysedd i gyflwyno trethi newydd yng Nghymru yn addas at y diben gyda Thrysorlys EM.

5.4 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau presennol a chyn-aelodau'r Pwyllgor Cyllid, ac i'r holl randdeiliaid a thystion, am eu cyfraniadau gwerthfawr dros gyfnod y Bumed Senedd.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 17 Mawrth 2021

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Gwaith Gwaddol y Pwyllgor Cyllid: Trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Offerynnau Statudol ym maes treth: Trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law, gan gytuno i gyflwyno adroddiad ar yr offeryn statudol.

## 10 Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft: Trafod yr adroddiad drafft

10.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.